PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 9 CHWEFROR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: Hollie Edwards-Davies (Cadeirydd) Jason Bartlett, Arthur Hallett, David Mills, Chrissie Nicholls |
| | Y Cynghorwyr: Cunnah, Sandrey and Williams |
| | Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas |

## 118 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Williams

## 119 : DATGANIADAU BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## 120 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021 fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n hoffi cael mwy o amser i ystyried cofnodion drafft y Panel Gwrandawiadau a gynhaliwyd ar 12fed Ionawr 2022; a dirprwyodd y Pwyllgor awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gymeradwyo cofnodion y Panel Gwrandawiadau ar 12 Ionawr 2022.

## 121 : CROESO I'R AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD

Croesawodd y Cadeirydd David Mills i'r cyfarfod.

## 122 : DIWEDDARIAD AR GWYNION COD YMARFER AELODAU - CHWARTER 3 2021/22

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gwynion a wnaed yn erbyn Aelodau Cyngor Caerdydd neu unrhyw un o Gynghorau Cymuned Caerdydd, yn honni toriad o'r Cod Ymddygiad Aelodau, yn benodol, cwynion a ddaeth i law yn ystod Chwarteri 3 2021/22 (y cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Rhagfyr 2021).

Trafododd y Pwyllgor a ddylid adolygu'r Protocol Datrys Lleol, yn sgil canlyniad y gwrandawiad datrys lleol diweddar, er mwyn cryfhau'r prawf ar gyfer dod â chwyn ger bron y Panel Gwrandawiadau. Esboniodd y Swyddog Monitro, o dan y Protocol presennol, y gall Aelod ofyn am gael cyfeirio eu cwyn at y Panel Gwrandawiadau os nad yw'n cael ei ddatrys drwy ddatrysiad anffurfiol, hyd yn oed os mai barn y Swyddog Monitro yw nad oes torri wedi bod ar y Cod; ac yna rhaid i'r Panel benderfynu ar y gŵyn. Mae hyn yn sicrhau bod aelodau'r Panel yn atebol dros benderfynu ar gwynion Aelodau mewn modd agored a

thryloyw. Fodd bynnag, gellid adolygu hyn, er enghraifft, i awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i benderfynu na ddylid cyfeirio cwyn at y Panel mewn rhai amgylchiadau penodedig, megis os mai barn y Swyddog Monitro yw nad oes digon o dystiolaeth o dorri'r Cod. Nododd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael cyfle i adolygu'r Protocol Datrys Lleol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Mynegodd yr aelod Cyngor Cymuned bryder am nifer y cwynion gan Gynghorau Cymuned a chynnigiodd ei gymorth i Swyddogion, os yn briodol, wrth drafod materion gyda'r Clercod.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynnwys yr adroddiad.

## 123 : ARSYLWI CYFARFODYDD

Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adborth ar gyfarfod o'r Cyngor llawn, oedd hefyd wedi ei rannu gyda'r Arglwydd Faer er gwybodaeth, ac roeddent yn falch o nodi'r adborth cadarnhaol.

Bu'r aelodau'n trafod arsylwi mewn cyfarfodydd Cyngor, Cyngor Cymuned a chyfarfodydd eraill y Pwyllgor yn y dyfodol. Cytunwyd bod rhestr o ddyddiadau cyfarfod yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau. Croesawodd y Cadeirydd y diddordeb a ddangoswyd gan yr Aelodau.

Bu'r aelodau hefyd yn trafod y posibilrwydd o arsylwi ar sesiynau sefydlu a hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig newydd. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hynny'n bosib.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r adborth arsylwi cyfarfodydd a gafwyd, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad; a

Parhau i arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau a Chynghorau Cymuned a rhoi adborth i'r Pwyllgor.

## 124 : COFRESTRU RHODDION A LLETYGARWCH A DDERBYNIWYD GAN AELODAU

Roedd yr adroddiad yn gyfle i'r Aelodau ystyried y rhoddion a'r lletygarwch a dderbyniwyd gan Aelodau, sydd wedi eu cofrestru yn ystod y cyfnod o 1 Tachwedd 2020 i 31 Rhagfyr 2021, yn unol â rheolau a osodwyd o dan God Ymddygiad Aelodau.

Wrth ystyried yr eitem hon nododd Aelodau niferoedd bychan y cofrestriadau lletygarwch a holi faint o hyder oedd yna fod pob achos wedi'i ddatgan. Dwedodd swyddogion ei bod yn ddyletswydd ar Aelodau Etholedig i ddatgan pob lletygarwch. Roedd gostyngiad wedi bod yn y datganiadau ond gallai hynny gael ei briodoli i’r cyfnod clo.

Cynghorwyd yr aelodau fod y mwyafrif llethol o Gynghorwyr wedi mynychu sesiynau gloywi ar y Cod Ymddygiad ac roedd swyddogion mor hyderus ag y gallent fod, bod datganiadau'n cael eu gwneud yn unol â'r Cod Ymddygiad

PENDERFYNWYD:

I nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiad A ac Atodiad B ar gofrestru lletygarwch, rhoddion a buddion eraill a dderbyniwyd gan Aelodau yn ystod y cyfnod o 1 Tachwedd 2020 i 31 Rhagfyr 2020.

## 125 : OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR BLYNYDDOL 2020/21; ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21; A LLYFR ACHOS COD YMDDYGIAD 2020/21

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau i roi sylwadau ar y Llythyr a'r Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi trosolwg o'r holl gwynion a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn 2020/21 ac yna ddadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â Chyngor Caerdydd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd aelodau ac roedd Swyddogion yn cytuno bod nifer y cwynion a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon o ran Caerdydd yn isel o'i gymharu â maint y boblogaeth. Nododd swyddogion ei fod yn adlewyrchu'r ffaith bod safonau ymddygiad wedi gwella a'i fod yn rhywbeth y gallai'r ddinas fod yn falch ohono.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau;

## 126 : ADOLYGU'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL

Hysbyswyd y Pwyllgor am yr Adroddiad Adolygu Annibynnol a oedd wedi dod i'r casgliad bod y trefniadau presennol yn addas i'r diben i raddau helaeth, ond eu bod wedi argymell rhai newidiadau i'r Fframwaith, gan gynnwys nifer o newidiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.

Roedd y newidiadau a argymhellwyd yn cynnwys

- gwneud hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol;
- diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol i'w gwneud yn ofynnol y dylid ystyried datrysiad lleol ar gyfer unrhyw gŵyn cyn y gellid ei chyfeirio wedihynny at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Ffurfioli canllawiau cyfryngau cymdeithasol;
- sicrhau y dylai aelodau Pwyllgorau Safonau gael hyfforddiant ar sut i gynnal Gwrandawiadau;
- creu Fforwm Cymru gyfan ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau;

- ac argymhelliad y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau chwarae rôl arweiniol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro ac arweinwyr grwpiau gwleidyddol, wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ym mhob rhan o'r Cyngor.

Canfu'r adolygiad fod pryderon difrifol am fwlio, diffyg parch neu ymddygiad cyffredinol aflonyddgar gan rai Aelodau mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, ac awgrymodd y gallai hyn gael ei liniaru gan ofyniad i roi hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr a mwy o ddefnydd ar weithdrefnau datrys lleol.

Nododd swyddogion fod nifer o'r arferion a argymhellir eisoes yn cael eu cynnal yng Nghyngor Caerdydd, ac y byddai'r ail argymhelliad yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cwynion y byddai gofyn i'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, fynd i'r afael â nhw, gydag oblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau, yn ogystal â chodi cwestiynau ynghylch annibyniaeth.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Bu'r aelodau'n trafod derbyn hyfforddiant pwrpasol a mabwysiadu gweithdrefnau datrys lleol gan Gynghorau Cymuned. Dwedodd swyddogion fod nifer o Gynghorau Cymuned wedi mabwysiadu gweithdrefnau datrys lleol. Mae pob Cyngor Cymuned wedi cynnig hyfforddiant i'w haelodau ond nid yw pob aelod wedi ei dderbyn gan nad yw'n orfodol. Mae swyddogion wedi rhoi hyfforddiant i rai Cynghorau Cymuned ond mae eraill wedi gwneud eu trefniadau eu hunain.

- Rhoddodd aelodau gyfarwyddyd i'r Swyddog Monitro i fwydo nôl yr adborth ynghylch pryderon y Pwyllgor am yr argymhelliad y dylid ystyried pob cwyn ar gyfer datrysiad lleol, o ran y goblygiadau adnoddau a chwestiynau ynghylch annibyniaeth.

- Bu'r aelodau'n trafod y cynsail a osodwyd gan achos Calver yng nghyd-destun atal achosion o gamymddwyn. Nododd swyddogion fod hyfforddiant yn canolbwyntio ar yr angen i gynnal safonau ymddygiad priodol.

- Roedd pryder am y lefel uwch o Gynghorwyr benywaidd yn adrodd am ymddygiad annerbyniol. Mynegwyd y farn y gallai ymddygiad cadarn nad oedd ynddo'i hun yn groes i'r Cod, serch hynny, gael effaith gronnus negyddol yn enwedig ar Gynghorwyr benywaidd iau ac fe allai eu harwain i beidio â cheisio cael eu hailethol. Dwedodd aelodau bod safon ymddygiad mewn pwyllgorau yn well nag yn y Cyngor llawn.

- Mynegwyd y farn y dylid cael mwy o gefnogaeth i Aelodau Etholedig a oedd yn destun cwynion yn eu herbyn. Dwedodd swyddogion fod gwasanaeth Cwnsela Cyfrinachol ar gael a bod y gefnogaeth i Aelodau Etholedig yn cael ei hadolygu'n barhaus.

- Mynegodd aelodau'r farn nad oedd y cynsail a osodwyd gan achos Calver yn ddefnyddiol o ran anghydbwysedd grym a rhyw ac y gellid manteisio ar y sylw o ran dadlau gwleidyddol cadarn a fyddai'n arwain at ymddygiad gwael. Nodwyd y gallai

Cynghorwyr iau yn aml deimlo eu bod wedi'u brawychu gan ymddygiad Aelodau Etholedig hŷn hyd yn oed pan nad oedd unrhyw frawychu yn fwriadol.

- Fe wnaeth aelodau fynegi pryder y gallai'r trothwy uchel gafodd ei osod gan achos Calver olygu bod achwynwyr yn cael eu tynghedu i fethu os nad oedd modd i'w cwyn gyrraedd y safon honno. Dwedodd swyddogion bod achwynwyr posib yn cael gwybod os nad oedd eu cwyn yn debygol o lwyddo. Mae llawer o achwynwyr posib a allai fod ag achos cryf yn dewis peidio â'i ddilyn am nad ydynt am osod eu hunain o dan y straen.

- Mynegodd aelodau werthfawrogiad o waith anodd Cynghorwyr. Mynegwyd y farn bod natur barhaus y sylwadau am ymddygiad a geid mewn Arolygon Aelodau yn dangos bod problem nad oedd wedi ei datrys.

- Bu'r aelodau'n trafod rhagfarn ddiarwybod o ran y diwylliant ynghlwm â gweithgareddau cymdeithasol ymhlith Cynghorwyr. Dwedodd swyddogion y bu hyfforddiant nad oedd yn orfodol ar ragfarn ddiarwybod i Aelodau Etholedig, ac y bydd yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant sefydlu ar gyfer Aelodau newydd.

- Awgrymodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol casglu hanesion o brofiadau'r Cynghorwyr yn ymwneud ag ymddygiad annerbyniol a brawychus a rhagfarn ddiarwybod i'w defnyddio mewn hyfforddiant. Dwedodd swyddogion y byddai'n anodd gwneud hynny heb dorri cyfrinachedd.

- Mynegodd aelodau'r farn y byddai canlyniad cwyn ddiweddar yn digalonni achwynwyr yn y dyfodol am fod y trothwy i lwyddo i'w weld mor uchel.

- Bu’r aelodau yn trafod diwylliant dadlau gwleidyddol ymhlith rhai Cynghorwyr gan fynegi'r farn nad oedd yn gynhwysol ac nid y math o ddiwylliant y dylid ei annog. Dylai Aelodau Etholedig fod yn anelu at safon ymddygiad gwell a mwy cynhwysol.

- Cyfeiriodd swyddogion at ddeddfwriaeth sy'n dod i mewn yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Grŵp i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel o fewn eu grwpiau, a chynigiwyd cyfarfodydd unigol gydag Arweinwyr Grŵp i drafod materion ymddygiad, gan gynnwys pryderon a godwyd am ymddygiad rhai Aelodau Profiadol.

- Dwedodd swyddogion fod cyn-Gadeirydd i’r Pwyllgor wedi gwahodd Cynghorwyr i drafod esiamplau o ymddygiad gwael â nhw, ond nad oedd wedi cael llawer o ymatebion. Er hynny, dwedodd yr aelodau y bydden nhw'n croesawu gwahoddiad arall i Gynghorwyr drafod.

- Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyfforddiant i Aelodau Cabinet o ran cyfrifoldebau eu rôl o ran eu perthynas gyda'r meinciau cefn.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r wybodaeth a oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad a'r atodiadau;

127 : PARATOI AR GYFER ETHOLIADAU LLEOL 2022

Gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad a oedd yn adolygu trefniadau sy'n cael eu gwneud i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad wrth baratoi ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Mai 2022. Nododd y Pwyllgor y llythyr drafft a oedd i'w anfon gan y Cadeirydd at bob ymgeisydd etholiadol, fel y cytunwyd yn y cyfarfod gydag arweinwyr grŵp a chwipiau, gan ofyn i ymgeiswyr gydymffurfio â'r safonau ymddygiad er budd etholiad teg a gonest.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau;

128 : BRÎFF AELODAU

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried cynnwys ei Frîff Aelodau nesaf a chymeradwyo trefniadau i'r Brîff gael ei gwblhau a'i gyhoeddi.

PENDERFYNWYD:

1. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gwblhau'r Briff, gan ystyried y sylwadau a wnaed gan Aelodau’r Pwyllgor; a

Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i gyhoeddi'r Brîff Aelodau Terfynol i holl aelodau Cyngor Caerdydd a chwe Chyngor Cymuned Caerdydd, a hefyd, os ystyrir yn briodol, i ymgeiswyr yn yr etholiadau llywodraeth leol sydd ar ddod.

129 : RHAGLEN WAITH 2021/22

Cytunodd y Pwyllgor ar y Rhaglen Waith fel y nodir yn Atodiad A.

130 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

131 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf Ddydd Mercher 22 Mehefin 2022 am 5.00pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.20 pm